

# Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2019/20

## Cyd-destun a chefnidir

### Yr ysgol

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Rhondda Cynon Taf sy'n rhan o gonsortiw Canolbarth y De yw Ysgol Gynradd Llanhari. Mae ganddi 185 o ddysgwyr ar y gofrestr: Mae 25.6 y cant yn gymwys i gael pryddau ysgol am ddim (FSM); mae gan 25.1 y cant anghenion dysgu ychwanegol (ADY); ac mae 1.13 y cant â Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL). Y rhaniad rhwng y rhywiau yw 56 y cant o fechgyn a 44 y cant o ferched.

### Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae gan yr ysgol bennaeth, dirprwy bennaeth, dau ddeiliad TRL, saith athro a saith cynorthwydd dysgu.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, cafodd yr ysgol £8,602.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

I ddatblygu diwylliant seiliedig ar ymchwil ac i ddatblygu ymhellach fel sefydliad sy'n dysgu, mae'r ysgol wedi datblygu dull aml-haenog ar gyfer dysgu proffesiynol. Defnyddiwyd y grant dysgu proffesiynol ychwanegol i roi'r dull hwn ar waith.

### Cyfarfodydd dysgu ac addysgu – effaith ar arfer ac addysgeg yn yr ystafell ddosbarth

<b>Rheswm dros y gwariant yn y maes hwn:</b>	Rhyddhau staff ar gyfer monitro a gwerthuso gweithgareddau i wella arferion.
<b>Gweithgareddau a gynhaliwyd:</b>	<p>Yn lle cyfarfodydd staff traddodiadol, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd dysgu ac addysgu bob pythefnos i'r holl staff, gan gynnwys staff cymorth. Mae pob hanner tymor yn edrych ar elfen wahanol o ddysgu ac addysgu yn unol â chynllun datblygu'r ysgol (CDY) neu hunanwerthusiadau staff.</p> <p>Mae'r meysydd ffocws ar gyfer eleni yn cynnwys y canlynol.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Hunanasesu ac asesu cyfoedion.</li><li>• Gwahaniaethiad.</li><li>• Cydberthnasau dysgwr-athro/athro-dysgwr</li><li>• Defnydd o'r awyr agored.</li><li>• Cynnwys partneriaid yn y dysgu.</li></ul>

	<p>Ar gyfer pob thema, mae'r arfer presennol yn cael ei werthuso a gosodir meini prawf llwyddiant gyda'r nod o godi safonau i o leiaf da, ac yn y rhan fwyaf o achosion, ardderchog.</p> <p>Gydol yr hanner tymor, ceir cyfleoedd i weithredu ar arferion da, treialu strategaethau newydd a chydweithredu.</p>
--	---

### Hyfforddiant staff – paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd/datblygu arweinyddiaeth

Rheswm dros y gwariant yn y maes hwn:	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caniatáu i staff fynd i hyfforddiant allanol, gan roi iddynt yr wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio'r cwricwlwm.</li> <li>• Dyrannwyd swm mawr o'r grant i dalu costau cyflenwi rhaglenni llwybrau dysgu proffesiynol cenedlaethol.</li> </ul>
Gweithgareddau a gynhaliwyd:	<p>Mae staff wedi dilyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y llwybr dysgu proffesiynol cenedlaethol</li> <li>• rhaglen Darpar CALU</li> <li>• rhaglenni arweinwyr canol a darpar brifathro.</li> </ul> <p>Mae nifer o'n staff cymorth hefyd yn ymgymryd â chymwysterau Lefel 3 gydag ITEC (heb unrhyw gost) o dan eu cyfarwyddyd a'u hunanastudiaeth eu hunain.</p>

### Lles a gwydnwch mewn staff

Rheswm dros y gwariant yn y maes hwn:	Sicrhau bod staff yn barod yn emosiynol ac yn feddyliol i reoli newid.
Gweithgareddau a gynhaliwyd:	Buddsoddi mewn sesiynau HMS a hyfforddiant gyda'r hwyr ar feithrin 'gwydnwch' staff, â ffocws ar emosiynau a chydberthnasau.

### Ymchwil gweithredu

Rheswm dros y gwariant yn y maes hwn:	Cyflenwi ar gyfer cydweithredu'n fewnol ac â phartneriaid allanol.
Gweithgareddau a gynhaliwyd:	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae pob aelod o'r staff addysgu a chymorth yn cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil gweithredu unigol.</li> <li>• Lluniwyd cynllun datblygu staff i helpu staff i fformatio eu syniadau (yn dilyn myfyrdod ar y safonau proffesiynol) a chael effaith ar eu dysgwyr. Roedd hyn yn sail i drafodaethau mewn cyfarfodydd rheoli perfformiad ac roedd ymchwil wedi'i chynnwys fel targedau rheoli perfformiad ar gyfer pob aelod o staff.</li> <li>• I ehangu eu meddylfryd y staff, mae staff wedi cael y dasg o ddarllen 'Clever Lands' gan Lucy Crehan. Bob hanner tymor maen nhw'n edrych ar wlad wahanol yn y llyfr ac yn dewis un elfen i roi cynnig arni yn yr ystafell ddosbarth.</li> </ul>

## Cydweithredu

<b>Rheswm dros y gwariant yn y maes hwn:</b>	Cwmpasu costau diwrnodau HMS i ddarparwyr allanol a rhyddhau staff i ymgymryd ag ymholiad gan gyfoedion.
<b>Gweithgareddau a gynhaliwyd:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cynhaliwyd diwrnodau HMS ar y cyd gyda'i grŵp gwella ysgol yn canolbwyntio ar ddatblygu cwricwlwm creadigol gyda Hywel Roberts. Roedd hyn wedi ysbrydoli'r staff i dreialu strategaethau newydd yn yr ystafell ddosbarth a darparu ffocws ar gyfer gweithio ar draws ysgolion.</li><li>• Elfen allweddol o gynllun dysgu proffesiynol yr ysgol oedd datblygu cyfrifoldeb ar y cyd a sgiliau hunanwerthuso drwy brosiect ymholi cyfoedion y clwstwr. Bu'r prosiect yn tynnu sylw at arfer da ac yn cefnogi meysydd y mae angen eu datblygu. Bu'r prosiect yn cynnwys ymweliadau ag ysgolion yn Lloegr i ystyried gwahanol fodolau o ymholi cyfoedion. Cytunwyd ar fformat a phrotocolau mewn digwyddiad hyfforddi cychwynnol a chynhaliwyd mwy o hyfforddiant ar fodolau effaith a'r camau nesaf. Caiff y prosiect ei werthuso'n llawn.</li></ul>

## Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

### Dull cyson mewn perthynas ag addysgeg

Mae defnyddio'r fframwaith 'Continua' ar gyfer eu dysgu a'u haddysgu wedi galluogi'r holl staff (gan gynnwys staff cymorth) i ganolbwyntio ar faes addysgeg bach mewn llawer o fanylder. Mae llawer iawn o rannu arferion da a syniadau wedi'u treialu, yn ogystal â chyfleoedd i gydweithio. Mae gan gydweithwyr ddealltwriaeth gyffredin o bob elfen ac mae hyn yn sicrhau dull cyson ar draws yr ysgol. Gan ddefnyddio'r offer gwerthuso 'Continua', mae'r staff yn gwerthuso ac yn mesur eu cynnydd yn erbyn pob elfen ac yn nodi eu meysydd eu hunain ar gyfer gwella.

### Datblygu sgiliau ymchwil ac astudio hunangyfeiriedig

Mae'r holl staff wedi datblygu eu sgiliau ymholi. Mae'r holl staff yn cynhyrchu cynlluniau datblygu newydd ar gyfer prosiect ymchwil gweithredu newydd ac maent yn ffocysu mwy ac yn fwy hyderus wrth ei gyflawni. Mae staff sy'n dilyn rhaglenni ar y llwybr proffesiynol yn datblygu eu sgiliau arwain ac maent yn ymgymryd â phrosiect yn yr ysgol. Mae gan staff sy'n cwblhau rhaglen arweinwyr canol fentor yn yr ysgol sydd hefyd yn datblygu sgiliau hyfforddi ac yn cryfhau cydberthnasau. Mae staff cymorth sy'n dilyn astudiaeth hunangyfeiriedig Lefel 3 gydag ITEC yn dangos eu hymrwymiad proffesiynol i ddysgu. Mae llawer yn ymgymryd â'u hail gymhwyster!

## Effaith y grant ar ddysgwyr

Mesurir yr effaith ar ddysgwyr yn dilyn pob ffocws dysgu ac addysgu. Yn y tymor hwy, gan fod pob elfen fel arfer yn gysylltiedig â CDY, gellir mesur effaith drwy

ddefnyddio data. Mae effaith a gwelliant yn amlwg bob amser yn dilyn ffocws, ond eu cynnal yw'r her!

Mae gan ddysgwyr yn yr ysgol ddealltwriaeth o'r pedwar diben a gallant gynllunio a gwerthuso eu gwaith drwy eu defnyddio. Mae'r addysgu o leiaf yn dda, ac yn ardderchog yn aml, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y sgoriau cynnydd ym mhob grŵp blwyddyn a data diwedd cyfnod allweddol.

Mae ymchwil gweithredu staff unigol wedi cael effaith ar ddysgwyr. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn, edrychodd yr athrawes ar annibyniaeth a'r defnydd o wobrau cynhenid. Mae ei hymchwil wedi ei harwain at newid ei hymarfer a chynnwys elfennau llwyddiannus ei hymholiad.

## **Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol**

### **Cysylltu â chynlluniau gwella ysgolion**

Er mwyn i ddysgu proffesiynol fod yn llwyddiannus a chael effaith ar ddysgwyr a staff, mae angen i elfennau gael eu cysylltu â'i gilydd. Mae gwneud hyn yn galluogi'r ysgol i gydblythu gweithgareddau a chyllidebau a sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.

### **Cydweithio â phartneriaid allanol**

Mae'r ystod eang o gyfleoedd i gydweithio â'r clwstwr a'r grŵp gwella ysgolion ar gyfer yr holl staff wedi meithrin diwylliant o rannu a bod yn agored. Gellir adeiladu ar gysylltiadau cryfach o fewn y clwstwr a gobaiith yr ysgol yw sefydlu nifer o grwpiau cymunedau dysgu proffesiynol newydd i ddatblygu'r cwricwlwm newydd fel clwstwr.

## **Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill**

Yn gyntaf, mae'r ysgol wedi canfod bod defnyddio dull strwythuredig ysgol gyfan ar gyfer ymchwil gweithredu yn fuddiol yn yr un modd ag y mae cynllunio a gwerthuso canlyniadau, canllawiau, ailedrych yn rheolaidd ar gynnydd mewn cyfarfodydd staff a'r defnydd o'r pasbort dysgu proffesiynol i ddangos datblygiad proffesiynol.

Mae cynnal cyfarfodydd dysgu ac addysgu yn lle cyfarfodydd staff wedi sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus. Ar ben hynny, mae dull strwythuredig, sy'n edrych ar elfennau o addysgeg yn fanwl, wedi effeithio ar agweddau dysgwyr a staff tuag at ddysgu proffesiynol.

Mae prosiect ymholi gan gyfoedion y clwstwr wedi cryfhau cydberthnasau ac wedi cefnogi gwelliant ymhob ysgol dan sylw – gan ddatblygu cyfrifoldeb ar y cyd ond hefyd gyfrannu at gryfhau'r prosesau hunanwerthuso yn ysgol gynradd Llanhari .

Mae cynllun dysgu proffesiynol ysgol gynradd Llanhari ar gael ar ei gwefan yn [www.llanhariprimary.com](http://www.llanhariprimary.com)